


# Her Mathemateg Cynradd

## Papur Bonws

3 Chwefror 2021



Enw ..... Class .....

Peidiwch â dechrau ateb y cwestiynau nes bod rhywun yn dweud wrthyich i wneud. Pan fyddwch yn dechrau, trowch y dudalen a bydd gennych 45 munud i gwblhau'r her.

Rhaid i chi wneud yr holl waith ar eich pen eich hunain. Dylech ddefnyddio papur bras ar gyfer hyn.



Ysgrifennwch A B C D neu E yn y gwagle i bob ateb.  
Pan fyddwch wedi gorffen, **defnyddiwch bensil B neu HB** i gopïo eich ateb i'r daflen a ddarlennir gan beiriant, a gaiff ei hanfon i mewn ar gyfer marcio.

Mae pob ateb cywir yn ennill un marc.

### Cwestiynau ymarfer

P1 Pa rif llawn sydd gyda'r gwerth agosaf at  $\frac{20}{21}$ ?  
A 0    B 1    C 2    D 3    E 4

P2 Sawl sgwâr  $1 \times 1$  sydd wedi'u lliwio yn y petryal  $7 \times 4$  hwn?  
A 24    B 25    C 26    D 27    E 28



MATHEMATICAL ASSOCIATION



supporting mathematics in education

The Mathematical Association  
259 London Road  
Leicester LE2 3BE

[www.primarymathschallenge.org.uk](http://www.primarymathschallenge.org.uk)  
Argraffwyd ar bapur wedi'i ailgylchu

1. Mae'r odometr yng nghar Martin yn dangos bod y car wedi teithio 45 125 miles. Mae'r digid 5 yn ymddangos dwywaith.




Faint o filltiroedd ychwanegol mae rhaid i Martin eu teithio cyn bod yr odometr yn cynnwys dau ddigid sydd yr un peth?

- A 5                      B 6                      C 7                      D 8                      E 9

2. Cyflog cyfartalog gweinydd mewn bwyta yn y DU yw £6.81 yr awr.

Tua faint o oriau mae angen i'r gweinydd weithio er mwyn ennill £100?




- A 5                      B 8                      C 11                      D 15                      E 18

3. Mae cloc Tic yn dangos amser o 16:27, ond mae cloc Toc yn dangos amser o 16:31.

Mae cloc Toc 3 munud yn araf. Felly mae cloc Tic yn

- A 7 munud yn araf                      B 6 munud yn araf  
C dangos yr amser cywir                      D 1 funud yn gyflym  
E 3 munud yn gyflym

4. Mae gan sgwâr berimedr sy'n hafal i berimedr hecsagon rheolaidd. Perimedr yr hecsagon yw 48 cm.

Beth yw arwynebedd y sgwâr?


- A  $36 \text{ cm}^2$                       B  $48 \text{ cm}^2$                       C  $64 \text{ cm}^2$                       D  $120 \text{ cm}^2$                       E  $144 \text{ cm}^2$

5. Mae'r patrwm hwn wedi'i wneud o 25 teilsen fach fel hwn



Sawl math gwahanol o deilsen sydd yna?

- A 2                      B 3                      C 4                      D 5                      E 6




6. Pwy ydw i? Rydw i'n swm sgwariau dau rif dilynol sy'n llai na 20 ac rydw i'n edrych yr un peth ben i waered!

- A **101**                      B **161**                      C **181**                      D **808**                      E **818**

7. Beth yw'r gweddill pan gaiff 7 999 999 999 ei rannu gydag 8?

- A 0                      B 1                      C 7                      D 8                      E 9

8. Mae Adie yn gaeth i gêm cwis newydd ar ei ffôn.

Mae hi'n cael un deimwnt am gael y cwestiwn cyntaf yn gywir, dau ddeimwnt am gael yr ail gwestiwn yn gywir, pedwar deimwnt am gael y trydydd cwestiwn yn gywir. Mewn gwirionedd, bob tro mae hi'n ateb cwestiwn yn gywir mae nifer y deimyntau mae hi'n eu derbyn yn dyblu!!




Mae hi'n derbyn cyfanswm o 127 deimwnt.  
Sawl cwestiwn atebodd hi'n gywir?

- A 6                      B 7                      C 8                      D 9                      E 10

9.  $4 \times 8 \times 3 \times 11 \times 2 \times N = 32 \times 33 \times 34$

Yn y cyfrifiad uchod, beth yw gwerth  $N$ ?

- A 13                      B 14                      C 15                      D 16                      E 17

10. Mae Patrick yn cofio ei hoff rif y ffordd hon: os ydych yn tynnu 500 i ffwrdd o'r rhif rydych yn cael rhif negatif, ond os ydych yn adio 501 rydych yn cael rhif 4-digid.

Beth yw cyfanswm y digidau sydd yn hoff rif Patrick?

- A 20                      B 21                      C 22                      D 23                      E 24


11. Mae'r cynllun hwn o ardd betryalog yn dangos ei bod wedi'i rhannu i mewn i dri phetryal llai.

Mae arwynebedd y gwely blodau yn hafal i arwynebedd yr ardd lysiau a hanner arwynebedd y glaswellt.

Mae'r gwely blodau yn 2 fetr o led ac mae'r ardd lysiau 6 metr o hyd.

Beth yw arwynebedd y glaswellt?

- A  $12 \text{ m}^2$                       B  $36 \text{ m}^2$                       C  $48 \text{ m}^2$   
D  $72 \text{ m}^2$                       E amhosib dweud




12. Ymhen chwe blynedd bydd Penny teirgwaith yr oedran yr oedd hi pedair blynedd yn ôl.

Beth yw oedran Penny nawr?

- A 6                      B 7                      C 8                      D 9                      E 12

13. Mae gennyf dair jar. Yn y jar gyntaf mae 16 botwm, yn yr ail jar mae 28 botwm ac yn y drydedd jar mae 37 botwm.


Beth yw'r nifer lleiaf o fotymau y mae'n rhaid eu symud i sicrhau y bydd gan bod jar yr un nifer o fotymau?

A 10                      B 11                      C 12                      D 13                      E 14

14. Mae'r diagram yn dangos dyluniad teilsen Islamaidd yn yr amgueddfa V&A.

Caiff ei gwneud o octagonau rheolaidd, trapesiymau a phedrochrau siâp saeth.

Beth yw maint pob un o'r onglau lleiaf yn y pedrochr sydd wedi'i liwio?



A  $20^\circ$                       B  $22.5^\circ$                       C  $25^\circ$                       D  $27.5^\circ$                       E  $30^\circ$

15. Faint o'r pump rhif isod sy'n lluosrifau 13?

13      131      1313      13131      131313

A 1                      B 2                      C 3                      D 4                      E 5

16. Mae'r cyrtiau tenis glaswellt yn Wimbledon fel pin mewn papur!

Petryal yw cwrt tenis gyda dimensiynau o 23.77 m wrth 10.97 m.

Rwy'n cyfri 18 glaswelltyn sengl mewn un centimetr sgwâr.

Tua faint o wellt sydd yna i gyd ar un cwrt?

A 5000                      B 50 000                      C 500 000  
D 5 000 000                      E 50 000 000



17. Os oeddech chi'n meddwl am ddau gyfanrif positif fel bod lluoswm eu swm a'u gwahaniaeth yn 21, beth yw'r mwyaf y gall un o'ch rhifau fod?


A 7                      B 8                      C 9                      D 10                      E 11

18. Gwnaeth Alice rai cacennau bach.  
Rhoddodd  $\frac{1}{3}$  i'w ffrind gorau,  $\frac{1}{5}$  i'w mam ac  $\frac{1}{9}$  i'w mam-gu.  
Cadwodd y gweddill iddi hi ei hun.






Cafodd Mam 8 gacen fach yn fwy na mam-gu a ni thorrrwyd dim ohonynt.  
Sawl cacen fach a gadwodd Alice iddi hi ei hun?

- A 16                  B 20                  C 24                  D 28                  E 32

19. Mae'r diagram yn dangos ciwb cyn ac ar ôl i byramid gael ei dorri i ffwrdd fel y dangosir ar y dde.




Pa un o'r rhwydi isod **nad yw'n** dangos rhwyd bosib ar gyfer?




20. Taldra dyn sy'n gwisgo het silc ac sy'n sefyll ar ystudfachau (*stilts*) yw 320 cm!  
Taldra'r dyn yn gwisgo'r het silc yn unig yw 225 cm.  
Taldra'r dyn ar ystadfachau heb yr het silc yw 285 cm.

Pa mor dal yw'r dyn heb yr ystudfachau na'r het silc?

- A 170 cm                  B 180 cm                  C 190 cm                  D 200 cm  
E 210 cm

21. Mae'r hecsagon hwn wedi'i dorri i mewn i 5 triongl isosgeles.





Faint yn fwy no ongl  $k^\circ$  yw ongl  $j^\circ$ ?

- A  $2.5^\circ$                   B  $5^\circ$                   C  $7.5^\circ$   
D  $10^\circ$                   E  $15^\circ$

22. Yn y diagram hwn, mae'r rhif uwchben neu o dan bob olwyn ddannedd yw nifer y dannedd sydd ar yr olwyn honno.

Pan fo'r olwyn bellach i'r chwith yn troi trwy 1 troad cyfan, faint maer olwyn ar y dde yn troi?




- A chwarter troad                      B banner troad                      C troad cyfan  
 D 2 droad cyfan                      E 4 troad cyfan

23. Mae Polly yn gwneud paralelogram trwy dorri dau fertig o driongl hafalochrog.

Hyd perimetr y paralelogram yw 20 cm.


Beth oedd hyd perimetr y triongl hafalochrog?

- A 18 cm                      B 21 cm                      C 24 cm                      D 27 cm                      E 30 cm

24. Faint o rifau positif llai na 1 000 000 sy'n lluosrifau 12 a sydd gyda dim ond 1 neu 2 neu'r ddau fel eu digidau?

- A 11                      B 12                      C 13                      D 14                      E 15

25.




Mae'r tri darn jig-so uchod yn ffitio i mewn i'r grid 3 wrth 3 heb gylchdroi nac adlewyrchu.

- Nid yw **U** yn yr un rhes â **P** neu **Q**
- Mae gan **T** sgwâr gwag yn syth uwch ei ben
- Mae **S** yn cyffwrdd â **Q** yn groeslinol (*diagonally*) ond nid **S** yw yng ngholofn 2.

Ar sail y tri chliw uchod, ym mha sgwâr y mae **S**?

- A X1                      B X3                      C Y2                      D Z1                      E Z3